

# Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 13 Mawrth 2024

Rhif Union: 01824712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 19 MAWRTH 2024** am **10.00** am yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams  
Swyddog Monitro

## AGENDA

### 1 YMDDIHEURIADAU

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### 3 MATERION BRYS

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### 4 COFNODION (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2024 (copi ynghlwm).

**5 PENNU FFIOEDD CARTREFI GOFAL PRESWYL A NYRSIO 2024/25**  
(Tudalennau 11 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer pennu ffioedd cartrefi gofal ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25.

**6 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 21 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**7 RHAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 37 - 42)

Derbyn Rhaglen Waith y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

Y Cynghorwyr

Gwyneth Ellis  
Gill German  
Elen Heaton  
Julie Matthews  
Jason McLellan

Barry Mellor  
Win Mullen-James  
Rhys Thomas  
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,  
(enw)

\*Aelod /Aelod cyfetholedig o  
(\*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant **\*personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-  
(\*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)\*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Mawrth, 20 Chwefror 2024 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant; Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Bobby Feeley, Karen Edwards, Jon Harland, Alan James, Gareth Sandilands ac Andrea Tomlin

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), a'r Amgylchedd a'r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT) a'r Gwasanaeth Tai a Chymunedau (LG); Swyddog Arweiniol Eiddo Tai (MC) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a SJ [Gweddarlledwr])

## PWYNT SYLW

Yn anffodus, roedd y Cyfieithydd ar y Pryd wedi'i hoedi ac felly byddai'r cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer y cyfarfod yn dechrau unwaith iddi gyrraedd.

### 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024.

**Materion yn Codi** – Tudalen 7, Eitem 5: Canlyniad Adolygiad y Pwyllgor Craffu Cymunedau o Benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r Cynnig am Arbedion i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siop Un Alwad – mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, bu i'r Cynghorydd Emrys Wynne gadarnhau bod gwaith i ddatblygu'r ymrwymadau a wnaed mewn perthynas â'r ffordd ymlaen ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd/siop un stop wedi dechrau. Roedd cyfarfod anffurfiol wedi'i gynnal gyda swyddogion i drafod gwaith y tasglu a byddai cyfarfod ffurfiol yn cael ei gynnal ym mis Ebrill i ddechrau'r broses a oedd yn cynnwys monitro effaith lleihau oriau agor a defnydd y llyfrgell, modelau cyflawni amgen a'r ddarpariaeth ynghyd ag unrhyw gyfleoedd ychwanegol i gynyddu incwm a gwneud y mwyaf o ddefnydd adeiladau llyfrgell. Yn y pen draw, byddai'r gwaith hwn yn arwain at Strategaeth Lyfrgelloedd newydd.

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 a chadarnhau eu bod yn gywir.

## **5 FFRAMWAITH AILWAMPIO TAI GWAG Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ail-dendro Fframwaith Ailwampio Tai Gwag y Cyngor.

Roedd y Gwasanaeth Tai yn rheoli oddeutu 3,480 o eiddo tenantiaeth gydag oddeutu 250 o eiddo yn dod yn wag bob blwyddyn (yn wag tra bod tenantiaid newydd yn cael eu dyrannu). Roedd yr eiddo hynny yn cael eu hailwampio i'r safon gosod newydd gan arwain at wariant o dros £4miliwn y flwyddyn. Cafodd y fframwaith presennol ei awdurdodi gan y Cabinet yn 2018 i leihau costau ac amser o ran gwneud gwaith ar dai gwag wrth gynnal safonau ansawdd. Dyluniwyd ail iteriad y fframwaith i barhau â'r gwelliannau hynny. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion a manyleb y fframwaith gan gynnwys pwysoliad ansawdd/pris o 60/40 gyda gwerth disgwylidig o £16miliwn dros bedair blynedd a'r tendr wedi'i rannu yn 4 lot.

Roedd Pennaeth y Gwasanaeth Tai a Chymunedau a'r Swyddog Arweiniol Eiddo Tai yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Dywedwyd wrth y Cabinet bod eiddo gwag yn rhoi cyfle delfrydol i wneud gwaith adnewyddu. Fodd bynnag, gallai'r trosiant gymharol fach mewn tenantiaid, gyda rhai wedi byw mewn eiddo ers degawdau cyn iddynt ddod yn wag, arwain at fod angen gwneud gwaith adnewyddu mawr. Hefyd, roedd angen i'r gwaith gael ei wneud mor gyflym â phosibl o ystyried yr incwm rhenti a fyddai'n cael ei golli tra bod yr eiddo yn wag, a'r angen i weithio yn unol â'r Safon Ansawdd Tai Cymru newydd wrth symud ymlaen. Roedd y fframwaith yn rhoi cyfle gwych i ddarparu gwaith cyson i gontractwyr lleol ac ehangu eu profiad/galluoedd i fodloni anghenion tai modern.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod cael contractwyr lleol enwebedig i weithio gyda Sir Ddinbych dros oes y fframwaith wedi arwain at ddarpariaeth gwasanaeth gwell yn nhermau ansawdd a gwerth, ac roedd defnyddio contractwyr lleol yn golygu bod arian yn aros yn Sir Ddinbych. Nodwyd hefyd bod y fframwaith yn helpu i sicrhau amseroedd cwblhau cynt ar gyfer gwaith adfer a thendro gwaith newydd ar dai gwag. Croesawyd y buddion cymunedol a restrir yn yr adroddiad a'r

Asesiad o'r Effaith ar Les hefyd gyda chyfleoedd ar gyfer hyfforddi, prentisiaethau a chreu swyddi.

Atebodd y swyddogion i gwestiynau gan aelodau'r Cabinet ac aelodau eraill fel a ganlyn –

- roedd y Cyngor yn awyddus i wneud y mwyaf o fuddion cymunedol lle bynnag bo'n bosibl ac roedd cynlluniau ar waith i wneud gwasanaethau tai yn fwy rhagweithiol o ran mesur buddion cymunedol a sut oedden nhw'n effeithio ar denantiaid yn benodol; roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda chontractwyr trwy Sir Ddinbych yn Gweithio i'w cefnogi nhw i gynnig prentisiaethau a lleoliadau'r cynllun Dechrau Gweithio ac ati, ynghyd â gwaith corfforol i neuaddau/mannau cymunedol gyda'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yng Nghanolfan Phoenix yn Rhydwen Drive yn cael ei ddefnyddio fel enghraifft
- roedd y Tîm Gwytnwch Cymunedol wedi gweithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector i'w helpu nhw i gael cyllid i gyflawni eu huchelgeisiau mewn meysydd lle'r oedd yna'r potensial i gael cyllid ar gyfer buddion cymunedol
- cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Les fel grŵp yn cynnwys y Swyddog Arweiniol Eiddo Tai, Prif Swyddog Buddsoddiadau Tai a'r Swyddog Arweiniol – Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Dai. Er nad oedd Cymdeithas Tenantiaid Sir Ddinbych wedi bod yn rhan uniongyrchol o ddatblygu'r Asesiad o'r Effaith ar Les, roeddent wedi bod yn rhan yn nhermau datblygu'r fframwaith newydd
- rhoddwyd sicrwydd bod cyflymder cwblhau gwaith ar dai gwag yn cael ei fonitro'n agos a'i herio yn rheolaidd; roedd oed a chyflwr yr eiddo, hyd y denantiaeth flaenorol, a gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru i gyd yn ffactorau wrth ystyried y gwaith sy'n ofynnol ac yn effeithio ar amseroedd cwblhau; darparwyd dadansoddiad o'r math o waith a wnaed a'r Safon Ansawdd Tai Cymru newydd yn ymwneud â lloriau a gwres fforddiadwy; er bod y gost gyfartalog yn £13,000 – 15,000 yr eiddo, gellir yn hawdd wynebu costau o £60,000 ar gyfer un eiddo
- yn nhermau effeithlonrwydd ynni a gwelliannau, gellir cynnwys bwrdd plastr wedi'i inswleiddio ac insiwleiddiad atig mewn gwaith ar dai gwag a rhoddwyd ystyriaeth i'r Dystysgrif Perfformiad Ynni mewn eiddo oherwydd y targed bod angen i'r holl dai fod yn raddfa 'C' ar y Dystysgrif Perfformiad Ynni erbyn 2030; byddai inswleiddio'r waliau allanol fel arfer yn cael ei wneud fel rhan o gynllun mwy ar draws ystâd dai.

Bu i'r Cynghorydd Rhys Thomas ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith. Bu iddo dynnu sylw at y ffaith fod y Cyfrif Refeniw Tai, a oedd yn ariannu'r gwaith ar dai gwag, hefyd wedi cael ei effeithio arno gan y sefyllfa economaidd ac ariannol bresennol a oedd yn wynebu awdurdodau lleol oherwydd camreolaeth Llywodraeth y DU, gyda chynnydd mewn chwyddiant a chost deunyddiau adeiladu. O ganlyniad, byddai'n mynd yn fwy a mwy anodd i ddarparu'r holl welliannau sydd eu hangen o ystyried y cyllid sydd ar gael i fuddsoddi mewn gwaith ar dai.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Cabinet –

- (a) yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau, a

(b) yn cymeradwyo ail-dendro Fframwaith Ailwampio Tai Gwag y Cyngor.

## 6 ARGYMHELLION Y GRŴP CRAFFU CYFALAF

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad gan geisio cefnogaeth y Cabinet i brosiectau a nodwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2024/25, yn ôl argymhellion y Grŵp Craffu Cyfalaf, i'w cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Cynghorwyd y Cabinet o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer dyraniadau bloc ar gyfer rhaglenni parhaus o waith, ynghyd â rôl y Grŵp Craffu Cyfalaf a'u gwaith o ran adolygu'r cynigion am ddyraniadau. Roedd manylion argymhellion y Grŵp Craffu Cyfalaf a'i rhesymau dros gefnogi prosiectau penodol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad. O ystyried graddfa'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, roedd moratoriwm ar unrhyw gynlluniau pellach a ariennir gan CSDd ar gyfer 2023/24 wedi'i gytuno ac roedd y Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi datblygu egwyddorion diwygiedig a meini prawf ar gyfer cynlluniau cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod fel y nodir yn yr adroddiad. Y prif bwyntiau i'w nodi oedd yr angen am fwy o ddibyniaeth ar gyllid grant, pwyslais ar gynlluniau buddsoddi i arbed, ac ymrwymiad i leihau benthyca blynyddol trwy weithio tuag at gymeradwyo dyraniadau bloc sydd gyfystyr ag arian cyfalaf cyffredinol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Roedd angen edrych ar y rhaglen gyfalaf yng nghyd-destun yr heriau ariannol presennol ac roedd rhaglen lai wedi'i hawgrymu gan yr aelodau i'w hystyried fel rhan o'r gwaith cyffredinol i osod cyllidebau cytbwys yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Gill German bod y Bwrdd Moderneiddio Addysg wedi cydnabod y llawer iawn o waith sydd wedi'i wneud i gael cyllid grant ar gyfer adeiladau ysgol sy'n rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa dda. Roedd adeiladau ysgol hefyd wedi cael eu heffeithio gan gamreolaeth economi'r DU gyda chostau cynyddol a chwyddiant, ac er bod yno angen i leihau gwariant cyfalaf o ystyried y sefyllfa ariannol, bu gwariant sylweddol ar adeiladau ysgol yn y blynyddoedd diwethaf ac ynghyd â pharhau i wneud y gorau o ddyraniadau cyllid grant, roedd hyder y gellir cynnal safon dda o adeiladau ysgol.

Siaradodd y Cynghorydd Elen Heaton o blaid y meini prawf/egwyddorion ar gyfer cynlluniau cyfalaf fel y nodir yn yr adroddiad, a oedd, yn ei barn hi, wedi helpu i fynd i'r afael ag anghenion cymharol uniongyrchol wrth hefyd bwysleisio ymrwymiad i gynllunio hirdymor gan arwain at ddull synhwyrol a chynaliadwy wrth symud ymlaen. Cytunodd yr Arweinydd, gan gadarnhau'r dull i gynlluniau cyfalaf mewn ymateb i bwysau ariannol enfawr, yn enwedig gyda chynlluniau buddsoddi i arbed, yn cynnwys cynllunio yn y tymor canolig a'r hirdymor.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Cabinet –

(a) yn nodi cynnwys yr adroddiad;

(b) yn cymeradwyo'r egwyddorion ar gyfer cynlluniau cyfalaf fel y nodir ym mharagraff 4.3 yr adroddiad, ac



(c) *yn cefnogi'r prosiectau a ddangosir yn Atodiad 1 yr adroddiad i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2024/25, a'u hargymell yn unol â hynny i'r Cyngor llawn.*

## **7 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad misol a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Rhodddwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2023/24 oedd £250.793 miliwn (£233.696 miliwn yn 2022/23)
- rhagwelwyd y byddai gorwariant o £2.840 miliwn mewn cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol
- rhodddwyd manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a chynnydd mewn ffioedd a chostau (£8.172 miliwn)
- rhodddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Arweiniodd y Pennaeth Cyllid ac Archwilio yr Aelodau drwy'r adroddiad. Roedd gostyngiad wedi bod yn y gorwariant a ragwelir ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaethau o £2.840 miliwn o'i chymharu â £3.229 miliwn y mis blaenorol gyda symudiad cadarnhaol o ychydig yn llai na £390,000. Roedd y prif feysydd o orwariant yn parhau i fod mewn Addysg a Gwasanaethau Plant, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd. Y mis hwn, bu costau cynyddol mewn gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf a'r fflyd a oedd wedi'u gwrthbwysu'n gyfan gwbl gan arbedion pellach a ganfuwyd gan wasanaethau a rhyddhau rhywfaint o arian wrth gefn corfforaethol. Roedd y Cyfrif Refeniw Tai wedi nodi cynnydd bychan yn eu tanwariant ar £126,000 o £108,000 oherwydd gostyngiad mewn cyfraniad refeniw i gyfalaf gyda rhagolygon o falans diwedd blwyddyn o ychydig yn llai na £800,000. Nid oedd unrhyw newid y mis hwn yn y defnydd a ragwelir o gronfeydd wrth gefn i ysgolion a oedd yn parhau i fod ychydig dros £7miliwn. Roedd yr atodiadau arferol wedi'u cynnwys ar y Cynllun Cyfalaf a phrosiectau mawr.

Roedd yr Arweinydd yn falch o nodi'r gostyngiad mewn gorwariant ond roedd y Cyngor yn parhau i fod mewn sefyllfa ariannol anodd a oedd wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad misol gyda heriau amlwg o'n blaenau. Bu iddo ddiolch i'r Aelod Arweiniol, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled parhaus yn ystod y cyfnod heriol hwn.

***PENDERFYNWYD*** y byddai'r Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.

## **8 RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynwyd rhaglen waith y Cabinet i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD** *nodi rhaglen waith y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am.

<b>Adroddiad i'r</b>	Cabinet
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	19 Mawrth 2024
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b>	Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Ann Lloyd, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Katie Newe, Rheolwr Gwasanaeth Gofal a Chymorth / Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio
<b>Teitl</b>	Pennu Ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio 2024/25

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â phennu Ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25.
- 1.2. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys lleoliadau cartrefi preswyl a nyrsio arbenigol ar gyfer dinasyddion sydd ag anghenion cymhleth a phroblemau iechyd meddwl.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. I ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ymgysylltiad â darparwyr cartrefi preswyl a nyrsio ar gyfer pobl hŷn mewn perthynas â ffioedd cartrefi gofal ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.
- 2.2. I geisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer pennu ffioedd cartrefi gofal ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

## 3. Beth yw'r Argymhelliad?

- 3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo pennu llinell sylfaen ar gyfer ffioedd cartrefi gofal ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 yn unol â Thabl 1 ym mharagraff 4.5 yr adroddiad hwn, sy'n cynrychioli cynnydd o 8.8%.

#### 4. Manylion yr adroddiad

4.1. O fis Rhagfyr 2023 ymlaen, comisiynodd Cyngor Sir Ddinbych 364 o leoliadau mewn 82 o gartrefi i ddarparu gofal a chymorth ar gyfer pobl hŷn mewn lleoliadau Preswyl, Preswyl ar gyfer yr Henoed Bregus eu Meddwl, Nyrsio, a Nyrsio ar gyfer yr Henoed Bregus eu Meddwl. Rhagwelir y bydd hyn yn costio £13 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon, o gyfanswm o £39 miliwn a warir ar becynnau gofal ledled y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn gyfan. Mae cyfran fawr o'r rhain yn cael eu hariannu'n llwyr neu eu hariannu'n rhannol gan Gyngor Sir Ddinbych; fodd bynnag, mae'n werth nodi efallai bod rhai lleoliadau hefyd yn cael eu hariannu ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys Gofal Nyrsio a Ariennir.

4.2. Cytunodd y Grŵp Arweinyddiaeth Rhanbarthol (is-grŵp ffurfiol o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol) yn 2023 y byddai'r Grŵp Ffioedd Rhanbarthol ('y Grŵp Ffioedd') yn gweithio tuag at ddull gweithredu cyson a thryloyw, gyda'r bwriad o'i weithredu'n llawn yn 2024/25. Cytunwyd ar dri phrif amcan yn rhan o'r cytundeb hwnnw:

- sefydlu Grŵp Ffioedd Gofal fel pwyllgor sefydlog, gyda CSDd yn aelod;
- cytuno ar y materion blaenoriaethol sy'n effeithio ar gost gofal ar hyn o bryd;
- datblygu'r broses o gasglu tystiolaeth, argymhell dulliau o gynyddu a chadarnhau cost canolrifol gofal, yn seiliedig ar ddiwygiadau i fethodoleg bresennol gogledd Cymru.

Mae'r Grŵp Ffioedd yn dal i weithio ar y ddau bwynt olaf cyn gweithredu methodoleg ranbarthol newydd yn llawn i lywio'r cynnydd mewn ffioedd yn y dyfodol ledled y rhanbarth. Mae Sir Ddinbych yn ymroddedig i weithio gyda'r Grŵp Ffioedd, ac wedi ymgysylltu'n llawn mewn cyfarfodydd gyda'r Grŵp.

4.3. Yn ystod mis Hydref 2023, cynhaliodd swyddogion CSDd ymarfer ymgysylltu a chyfarfuwyd â sampl o ddarparwyr. Gweler prif themâu'r cyfarfodydd hynny yn Atodiad 1.

4.4. Ystyriwyd nifer o ddewisiadau ar gyfer cynyddu ffioedd, ynghyd ag adborth darparwyr. Gweler y dewisiadau yn Atodiad 2. Yr oedd hyn yn amrywio o wneud dim, a gadael ffioedd gofal ar yr un lefel ag y cytunwyd ar gyfer 2023/24, hyd at

gynnydd o 8.8%, a fyddai'n galluogi darparwyr i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol i'w staff gofal.

4.5. Ar gyfer ffioedd 2024/25, mae'r dull a ddefnyddir yn adlewyrchu methodoleg ranbarthol y flwyddyn flaenorol gan mwyaf, ac mae'n cynnwys ystyriaethau fel Mynegai Prisiau Defnyddwyr a'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Amlinellir y dewis a ffefrir yn nhabl 1, isod.

**Tabl 1**

	<b>23/24</b>	<b>24/25</b>	<b>Cynnydd Wythnosol</b>	
Preswyl Safonol	£711.83	£774.47	£62.64	8.80%
Preswyl – Henoed Bregus eu Meddwl	£743.18	£808.58	£65.40	8.80%
Nyrsio Safonol*	£782.91	£851.81	£68.90	8.80%
Nyrsio – Henoed Bregus eu Meddwl*	£845.63	£920.05	£74.42	8.80%

\* Yn cynnwys cyfraniad Gofal Nyrsio a Ariennir gan yr ALI – swm 2023/24 yw £8.37 y pen yr wythnos

4.6. Anfonwyd cynnig y ffioedd (Tabl 1) i ddarparwyr ddechrau mis Rhagfyr 2023, ac fe'u gwahoddwyd i ymgysylltu mewn ymarfer llyfr agored rhwng 15 Ionawr a 30 Ionawr 2024.

4.7. Ers i ni ysgrifennu at ddarparwyr ym mis Rhagfyr, mae naw darparwr (yn cynrychioli un cartref ar ddeg) wedi cysylltu drwy e-bost neu lythyr. O'r rhain, mae tri wedi cyfarfod â ni i drafod ffioedd ymhellach. Ni chafwyd unrhyw gysylltiad gan fwyafrif y darparwyr, ond mae'r cynnig am ymarfer llyfr agored yn dal i fod, a gallwn ddechrau trafodaethau gyda darparwyr ar unrhyw bryd.

4.8. Drwy'r cyfarfodydd hyn ni fu'n bosibl dod i gasgliad ynglŷn â rhesymoldeb costau darparwyr unigol o ganlyniad i ymgysylltiad cyfyngedig y darparwyr yr ydym yn eu comisiynu, a fyddai'n rhoi darlun ehangach i ni. Yr ydym yn dal yn optimistaidd y bydd y Grŵp Ffioedd Rhanbarthol yn mynd i'r afael â'r mater hwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod wrth iddo barhau i ddatblygu methodoleg pennu ffioedd sy'n darparu dull gweithredu rhanbarthol cyson a thryloyw.

- 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?**
- 5.1. Mae'r penderfyniadau ynglŷn â ffioedd cartrefi preswyl a nyrsio'n cyfrannu at themâu canlynol y Cynllun Corfforaethol:
- 5.1.1. Sir Ddinbych ffyniannus**
- Telir ffioedd Cartrefi Gofal i ddarparwyr unigol yn y sector preifat a'r trydydd sector, ac felly maent yn cefnogi twf yr economi gymdeithasol leol ac yn darparu swyddi lleol.
- 5.1.2. Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad**
- Caiff lefelau ffioedd eu llywio a'u pennu yn dilyn ymgysylltiad â darparwyr, ac mae hynny'n meithrin diwylliant sy'n croesawu her briodol a theg. Mae'r broses o bennu ffioedd yn sicrhau bod gwerth am arian yn rhan greiddiol o ddiwylliant y sefydliad a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gytbwys drwy ystyried ansawdd gwasanaeth a gwerth cymdeithasol.
- 5.2. Mae gan y penderfyniad hwn / yr wybodaeth hon gyfraniad niwtral at darged y Cyngor i ddod yn sefydliad Ecolegol Gadarnhaol a Di-garbon Net erbyn 2030.
- 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
- 6.1. Amlinellir costau'r gwahanol ddewisiadau yn Atodiad 2. Mae'r cynnydd ariannol o 8.8% a argymhellir yn costio £1.023 miliwn ac mae o fewn y ddarpariaeth gyllidebol a wnaed eisoes ar gyfer 2024/25.
- 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
- 7.1. Amherthnasol
- 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**
- 8.1. Manylir ar yr ymgynghoriad â darparwyr yn adrannau 4.3 a 4.7.
- 8.2. Ymgynghorwyd â thimau Gwaith Cymdeithasol Sir Ddinbych yn ystod y broses hon ac maent wedi cadarnhau bod lleoliadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rhoddir ystyriaeth i ddewis a rheolaeth, argaeledd a phris.

- 8.3. Mae Cyfarfod Briffio'r Cabinet a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi bod yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â phennu ffioedd yn rheolaidd.
- 8.4. Gofynnwyd am farn cydweithwyr cyllid drwy gydol y broses o bennu ffioedd.
- 8.5. Cyflwynwyd adroddiad ar wahân i Bwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Medi 2023 yn nodi'r ymgysylltiad â Fforwm Gofal Cymru, sy'n cynrychioli rhai darparwyr gofal yn Sir Ddinbych.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

- 9.1. Mae'r cynnydd amcangyfrifedig yng nghost y ffi a argymhellir wedi ei gynnwys yn y pwysau cyllidebol cyffredinol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd ar gyfer 2024/25; fodd bynnag, gall y ffigwr hwn newid gan fod y dewis i ymgysylltu yn yr ymarfer llyfr agored yn dal i fod ar gael i ddarparwyr.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 10.1. O ganlyniad i gyflenwad cyfyngedig o gartrefi gofal fforddiadwy, mae'n gyfyng arnom o ran sicrhau gwell gwerth am arian yn y sector.
- 10.2. Gallai dim digon o leoliadau gofal arwain at gynnydd mewn achosion o oedi llwybrau gofal o ysbytai, a byddai hynny'n effeithio ar ddinasyddion a gwaith partneriaeth. Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr BIPBC i sicrhau nad oes gor-ragnodi gofal ac i hwyluso ymyriadau ataliol pan fo'n bosibl.
- 10.3. Mae yna risg o ostyngiad yng nghapasiti Cartrefi Preswyl a Nyrsio Sir Ddinbych os yw darparwyr yn tynnu'n ôl neu'n penderfynu peidio â buddsoddi yn y farchnad ofal leol. Yn y tymor hirach byddem yn gobeithio y gallwn liniaru hyn gyda datblygiad parhaus agenda ailgydbwysu gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych.
- 10.4. Mae yna risg y bydd rhai darparwyr yn dewis cynnig lleoliadau gwely dim ond i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain neu Awdurdodau Lleol sy'n talu mwy.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

- Nodir pwerau'r Cabinet mewn perthynas â'r mater hwn yn y canlynol:
- Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

- Tabl 4 Adran 13 o Gyfansoddiad y Cyngor  
Adran 114 b Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



## Atodiad 1 - Adborth yn dilyn Ymgysylltu gyda Darparwyr Hydref 2023

- Roedd holl ddarparwyr yn ystyried tâl staff, recriwtio a chadw staff fel y pwysau mwyaf ar gostau
- Roedd rhai darparwyr yn teimlo bod y gofynion i ofalwyr gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweld mwy o bwysau ar amser/cyllid yn ogystal â rhai gweithwyr yn gadael y sector.
- Mae yna amrywiol drefniadau benthycu / cyllid ar gyfer cartrefi, mae'r trefniadau hyn, cyfraddau llog a modelau busnes yn effeithio'n fawr ar beth mae darparwyr yn ei ystyried yn linell waelod.
- Mae gan gartrefi llai ffiniau tynnach, sy'n golygu y gallai hyd yn oed un neu ddau fwlc erydu unrhyw elw.
- Roedd rhai cartrefi yn dweud bod costau cyfleustodau yn cael effaith ar eu costau cynnal. Roedd eraill yn dweud eu bod mewn contractau tymor sefydlog, yn golygu nad oeddent wedi teimlo effaith unrhyw gynnydd eto.
- Mae costau eraill sy'n effeithio ar gartrefi gofal yn cynnwys cynnydd mewn premiymau yswiriant a chynnydd mewn costau bwyd.
- Mae ymholiadau a godir mewn perthynas â pha un a yw dyheadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael eu hadlewyrchu'n wirioneddol yn y fethodoleg a ddefnyddir i gyfrif ffioedd, yn cwestiynu pa un a yw Llywodraeth Cymru wirioneddol yn fodlon talu beth fyddai yn ei gostio i ddarparu o dan y Ddeddf.
- Mae yna wirioneddol awydd i gysylltu mwy gyda'r Awdurdod Lleol, roedd yr holl ddarparwyr yn dweud y byddent yn croesawu ail lansio'r Fforwm Darparwyr.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Atodiad 2 - Dewisiadau Cynyddu Ffi

### DEWIS A

Gwneud dim a pharhau i dalu ffioedd gofal ar yr un raddfa â 2023 / 24 a fydd yn parhau i achosi costau o tua £13 miliwn y flwyddyn yn seiliedig ar 364 lleoliad a gomisiynir ar hyn o bryd.

### DEWIS B

Mae'r dewis hwn yn cynnig cynnydd uniongyrchol o 3% ar draws y pedwar ffi gofal, oedd ar yr un pryd yr un fath â chynnydd chwyddiant y cynnig cyllid Grant Cynnal Refeniw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 24/25.

Dewis B	23 / 24	24 / 25	Cynnydd Wythnosol	
Preswyl Safonol	£711.83	£733.18	£21.35	3.00%
Preswyl – Henoed Bregus eu Meddwl	£743.18	£765.48	£22.30	3.00%
Nyrsio Safonol*	£782.91	£806.40	£23.49	3.00%
Nyrsio – Henoed Bregus eu Meddwl*	£845.63	£870.00	£25.37	3.00%

*\*Yn cynnwys Gofal Nyrsio a Ariennir gan yr ALI – 2023 / 24 yn £8.37 fesul unigolyn fesul wythnos.*

Byddai hyn yn costio oddeutu **£348,882** yn ychwanegol.

### DEWIS C

Mae'r cynnig hwn yn adlewyrchu'r chwyddiant CPI 6.3% hyd at fis Medi 2023.

<b>Dewis C</b>	<b>23 / 24</b>	<b>24 / 25</b>	<b>Cynnydd Wythnosol</b>	
Preswyl Safonol	£711.83	£756.68	£44.88	6.30%
Preswyl – Henoed Bregus eu Meddwl	£743.18	£790.00	£46.82	6.30%
Nyrsio Safonol*	£782.91	£832.23	£49.32	6.30%
Nyrsio – Henoed Bregus eu Meddwl*	£845.63	£898.90	£53.27	6.30%

*\*Yn cynnwys Gofal Nyrsio a Ariennir gan yr ALI – 2023 / 24 yn £8.37 fesul unigolyn fesul wythnos.*

Byddai hyn yn costio oddeutu **£732,653** yn ychwanegol.

## **DEWIS D**

Mae'r cynnig hwn yn cynnig cynnydd ariannol o 8.80%, sy'n cymryd i ystyriaeth y 10% o gynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol o £10.90 yr awr i £12.00 yr awr.

<b>DEWIS D</b>	<b>23 / 24</b>	<b>24 / 25</b>	<b>Cynnydd Wythnosol</b>	
Preswyl Safonol	£711.83	£774.47	£62.64	8.80%
Preswyl – Henoed Bregus eu Meddwl	£743.18	£808.58	£65.40	8.80%
Nyrsio Safonol*	£782.91	£851.81	£68.90	8.80%
Nyrsio – Henoed Bregus eu Meddwl*	£845.63	£920.05	£74.42	8.80%

*\*Yn cynnwys Gofal Nyrsio a Ariennir gan yr ALI – 2023 / 24 yn £8.37 fesul unigolyn fesul wythnos.*

Byddai hyn yn costio oddeutu **£1.023miliwn** yn ychwanegol.

<b>Adroddiad i'r</b>	Cabinet
<b>Dyddiad y cyfarfod</b>	19 Mawrth 2024
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b>	Y Cyngorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio
<b>Awdur yr adroddiad</b>	Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio
<b>Teitl</b>	Adroddiad Cyllid (Chwefror 2023/24)

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2023/24. Mae'r adroddiad hefyd yn crynhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Diben yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2023/24.

## 3. Beth yw'r Argymhelliad?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2023/24 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.

## 4. Manylion yr adroddiad

